



## Adeiladwch Gerflun Data

*Defnyddio deunyddiau crefft corfforol i adrodd stori data mewn 3D*

Bydd y gweithgaredd hwn yn cymryd 20 i 30 munud. Dylai fod gennych chi'r deunyddiau hyn wrth law:

- Deunyddiau crefft lleol (topiau poteli plastig,
- gwifren, peli blewog, papur lliw, blociau pren, papur adeiladu)
- Tâp, glud, siswrn
- PEIDIWCH â chynnwys beiros, creonau, nac unrhyw beth arall i ysgrifennu gyda nhw (fel arall mae pobl yn tynnu llun yn lle adeiladu)
- PEIDIWCH â chynnwys briciau LEGO (fel arall mae pobl yn adeiladu siartiau bar yn unig)



**Mynd yn rhithiol?** Gofynwch pobl i casglu adnoddau o flaen llaw. Gall hwn fod yn fwy hwyl achos gall pawb dod gyda deunydd gwahanol!

## Cefndir

Mae'r syniad o chwarae gyda data yn newydd i'r mwyafrif o bobl. Mae'r gweithgaredd hwn yn galluogi pobl i adeiladu cerfluniau'n gyflym sy'n adrodd stori ddata syml gyda deunyddiau crefft. Mae'r ymagwedd chwareus at y data yn helpu i ennyn diddordeb y cyfranogwyr i feddwl am sut y gellir dod o hyd i storïau a'u cyflwyno'n gyflym, ac yn helpu pobl i deimlo'n fwy rhydd a hyblygynghylch cyflwyniadau data. Mae'n creu syniad o "gyflwyniad" yn hytrach na "delweddu". Mae'r gweithgaredd hefyd yn adeiladu'r gallu i drosi geiriau a rhifau'n ffurfiau strwythurol. Yn ogystal, gall chwarae gyda'r deunyddiau hyn ar ddechrau gweithdy yn chwalo deinameg pŵer a allai fodoli o fewn y grŵp.

# Cychwyn y Gweithgaredd

Cyflwynwch y grŵp i ddau siart data “normal” cysylltiedig. Gall un fod yn ffaith unigol, a'r llall yn set ganolig o wybodaeth. Os gwewch un eich hun, gwnewch yn siŵr eich bod yn osgoi data y mae'r gynulleidfa yn ei adnabod yn rhy dda – gwelwn fod hynny'n arwain pobl i fynd ar goll yn y naws a'r manylion personol . Awgrymw'n ddefnyddio data mwy generig neu lefel uchel. Dyma rai o daflenni mae croeso i chi eu lawrlwytho, eu hargraffu, a'u defnyddio:

**Poblogaethau Adar sy'n Nythu yng Nghymru:**

[https://www.data.cymru/cym/Poblogaethau\\_Adar\\_Bridio\\_yng\\_Nghymru.pdf](https://www.data.cymru/cym/Poblogaethau_Adar_Bridio_yng_Nghymru.pdf)

**Defnydd ynni yn y DU:**

[https://www.data.cymru/cym/Defnydd\\_ynni\\_yn\\_y\\_DU.pdf](https://www.data.cymru/cym/Defnydd_ynni_yn_y_DU.pdf)

**Y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg:**

[https://www.data.cymru/cym/Y\\_boblogaeth\\_sy'n\\_siarad\\_Cymraeg.pdf](https://www.data.cymru/cym/Y_boblogaeth_sy'n_siarad_Cymraeg.pdf)

Gofynnwch i'r grŵp baru, yn ddelfrydol gyda rhywun nad ydyn nhw'n eu hadnabod. Dangoswch i'r cyfranogwyr fwrdd canolog mawr sy'n llawn y deunyddiau rydych chi wedi eu casglu. Rhewch 6 munud iddynt adeiladu cynrychiolaeth ffisegol yn gyflym o'r data a gyflwynwyd gennych yn gynharach. Peidiwch â rhoi gormod o amser iddynt, fel arall byddant yn mynd yn sownd â naws yn hytrach na chael eu sudd creadigol i lifo. Atgoffwch nhw eu bod yn greadigol, ac NAD yw siartiau bar â glanhawyr pib yn cael eu caniatáu!Ar ôl 3 munud dwedwch wrthyn nhw y dylen nhw fod yn adeiladu erbyn hyn; gweithgaredd 'meddwl gyda'ch dwylo' yw hwn. Pan fydd ganddynt un funud ar ôl, rhewch wybod iddynt.



**Mynd yn rhithiol?** Gwnewch yn siŵr eich bod yn postio'r taflenni PDF i'r sgwrs rhithiol yn ystod y sesiwn, neu fod gennych chi dim ond un ar sgrin drwy rannu sgrin tra bod pobl yn adeiladu. Peidiwch â'u hanfon drwy e-bost ymlaen llaw; mae hyn yn gallu rhoi tipyn yn ormod o amser i'r rhai chwilfrydig ystyried y data.

## Gofynnwch i Bawb Rannu Eu Hadborth

Stopiwch bawb pan ddaw'r amser i ben. Rhowch 1 munud i bob grŵp rannu'r hyn maen nhw wedi'i wneud.

Gallwch chi grynhoi drwy dynnu sylw at y debygrwydd a gwahaniaethau yn y darnau y mae pobl wedi'u gwneud. Yn aml fe welwch rai pobl yn canolbwyntio ar un pwynt data, tra bod eraill yn edrych ar ddarlun ehangach. Gyda'r data Poblogaethau Adar sy'n Nythu yng Nghymru, gallech chi geisio uno'r ddwy set ddata neu ganolbwyntio ar un yn unig.



Tynnwch sylw at unrhyw fersiynau ffisegol o siartiau traddodiadol i nodi pa mor sefydledig yw ein technegau cyflwyno gweledol presennol! Ceisiwch nodi patrymau yn y modd y cafodd y rhifau eu mapio ar wrthrychau ffisegol.